

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

Y Cynghorydd Phil White

Ward:Caerau

Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Caerau ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 68 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy [rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau](#) drwy ddilyn y ddolen hon.

Gweithgarwch Etholaeth

Unwaith eto eleni rwyf wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'm hetholwyr ac mae'n bosib cysylltu â mi o hyd dros y ffôn, drwy e-bost a galwadau tŷ. Rwyf wedi bod yn brysur yn gweithio ar draws gydol y ward a chyfarfod ag etholwyr. Mae cylchlythyrau rheolaidd am fy ngweithgareddau a sut i gysylltu â mi wedi'u dosbarthu'n rheolaidd ar draws y ward. Rwyf i, ynghyd â'm cynrychiolwyr Llafur, ein AS ac AC, wedi cynnal cymorthfeydd yn y ward.

Rwyf wedi bod yn gefnogol a chymryd rhan yn yr holl waith adfywio yn y ward. Rwyf wedi cynnal atgyfeiriadau rheolaidd i etholwyr ar faterion gwella priffyrdd, goleuadau stryd, atgyweirio a gwella ffyrdd a phalmentydd, tai, gwasanaethau cymdeithasol. Rwyf wedi parhau i gydweithio'n agos gyda sefydliadau cymunedol, fel Cymuned Noddfa, Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau, Sefydliad y Glowyr Nantyffyllon, Clwb Rygbi Nantyffyllon, Clwb Pêl-droed Caerau, Ffrindiau Parc Lles Maesteg ac ati, tyfwyr marchnad Caerau, ymddiriedolaeth datblygu Caerau a llawer o rai eraill.

Rwyf wedi cynnal trafodaeth reolaidd â swyddogion PCSO ar faterion eraill sy'n ymwneud â'r ward. Cefnogi llawer o geisiadau cynllunio yn y ward, yn bennaf mewn

perthynas â gwelliannau i'r cartref ac ati. Fel aelod o Fforwm Cwm Llynfi, rwyf wedi mynd i gyfarfodydd rheolaidd ar adfywio a datblygu ar gyfer Cwm Llynfi.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Cyfarfodydd rheolaidd gyda Quatro Public Relations i drafod manteision cymunedol o ddatblygiad Fferm Wynt Llynfi ac Afan.

Chwaraeais ran hanfodol, gydag eraill, wrth ymsefydlu prosiect gardd marchnad Caerau fel aelod cyngor a chyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Groundwork ac maent newydd gael eu cytundeb prydles 23 mlynedd wedi'i gymeradwyo gan V2C ar gyfer y tir a'r ardd farchnad mewn blynyddoedd blaenorol.

Fi yw'r Hyrwyddwr Pobl Hŷn yn CBSP ac rwyf wedi bod yn falch o allu bod yn rhan o'n llwyddiannau cyfeillgar i ddementia yn enwedig fy nhref enedigol yn dod yn gymuned sy'n gyfeillgar i ddementia.

Roeddwn wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion ar ailsefydlu mentrau Cymunedau yn Gyntaf yn y Fwrdeistref Sirol gyda'r dyhead o gael mwy o effaith ar yr hyn y gellir ei gyflawni a'i ddarparu ar gyfer rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig yr awdurdod.

Ynghyd â'm cydweithwyr yn y cabinet, roeddwn yn falch o fod wedi darparu dau gyfleuster gofal ychwanegol newydd ym Maesteg ac Ynysawdre i wasanaethu'r cymunedau hynny. Rwyf wedi bod yn rhagweithiol yn mhob agwedd ar ofal cymdeithasol i oedolion ar draws yr awdurdod cyfan.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwy'n gweithio ochr yn ochr â'm cyd-aelodau yma yn y cyngor er mwyn cael y gorau y gallwn i'n hetholwyr yn y rhanbarth bargaen ddinesig o ran cyflogaeth, hyfforddiant a sgiliau ynghyd â mentrau tai.

I mi, prinder tai fforddiadwy yw un o brif nodau fy ngwaith fel aelod etholedig i gael cymaint o bobl a theuluoedd â phosibl oddi ar ein cofrestr dai ac i mewn i gartrefi gweddus ac addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif.

Rwy'n ymrwymedig i weithio'n ddiflino i wella bywyd, iechyd a chyfoeth ein hetholwyr drwy gydol y fwrdeistref sirol a byddaf yn gweithio i sicrhau bod yr holl opsiynau ar gyfer adfywio a datblygu wedi'u harchwilio ac yn fwy pwysig wedi'u darparu i bawb.

Rwyf wedi chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni'r cartref a ddechreuodd yn y fwrdeistref sirol.

Mae diwygio lles a'i oblygiadau ar gyfer ein hetholwyr yn parhau'n flaenoriaeth wrth fonitro'r effaith mae'n ei gael ar yr awdurdod.

Rwyf hefyd yn gynrychiolydd ar y grwpiau a'r cyrff canlynol

- Aelod dirprwyedig o grŵp polisi gwasanaethau cymdeithasol CLILC
- Aelod dirprwyedig o grŵp polisi llafur CLILC

- Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Nantyllyn (Cadeirydd)
- Llywodraethwr Ysgol Gyfun Maesteg
- Aelod o Ffrindiau Parc Lles Maesteg
- Aelod o'r grŵp LV 20

Y Cyngorydd: P White

Dyddiad: 25 Mai 2018